

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(FFYRDD YMUNO AC YMADAEL WRTH
GYFFORDD 3 (CYFNEWIDFA PENCALEDOG),
YNYS MÔN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS
DRO) 2022**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog), Ynys Môn.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain yr A55 wrth Gyffordd 3 (Cyfnewidfa Pencaledog). Ni fydd y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a thua'r dwyrain ar gau ar yr un pryd.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sydd am ymadael â'r gefnffordd neu draffig sy'n teithio tua'r dwyrain sydd am ymuno â'r gefnffordd wrth Gyffordd 3 yw teithio tua'r gorllewin i Gyffordd 2 (Caergybi) a dychwelyd tua'r dwyrain i ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 3 neu barhau tua'r dwyrain.

Dylai traffig sy'n teithio tua'r gorllewin sydd am ymuno â'r gefnffordd neu draffig sy'n teithio tua'r dwyrain sydd am ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 3 deithio tua'r dwyrain i Gyffordd 4 (Dalar Hir) a dychwelyd tua'r gorllewin i ymadael â'r gefnffordd wrth Gyffordd 3 neu barhau tua'r gorllewin.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 16 Mai 2022. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (18:00 – 06:00 o'r gloch) o 16 – 30 Mai 2022 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**THE A55 TRUNK ROAD (SLIP ROADS AT
JUNCTION 3 (PENCALEDOG
INTERCHANGE), ANGLESEY) (TEMPORARY
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road at Junction 3 (Pencaledog Interchange), Anglesey.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles from proceeding on the lengths of the A55 westbound and eastbound exit and entry slip roads at Junction 3 (Pencaledog Interchange). The westbound and eastbound slip roads will not be closed at the same time.

The alternative route for westbound traffic wishing to leave the trunk road or eastbound traffic wishing to join the trunk road at Junction 3 is to travel westbound to Junction 2 (Holyhead) and return eastbound to exit at Junction 3 or continue eastbound.

Westbound traffic wishing to join the trunk road or eastbound traffic wishing to leave the trunk road at Junction 3 should travel eastbound to Junction 4 (Dalar Hir) and return westbound to exit at Junction 3 or continue westbound.

The Order comes into force on 16 May 2022. The temporary prohibition is expected to operate overnight (18:00 – 06:00 hours) from 16 – 30 May 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be
obtained from Orders Branch, Transport,
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff
CF10 3NQ.**

J SADDLER
Transport
Welsh Government